**Rhif: WG35458**

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Tocynnau bws rhatach i bobl iau yng nghymru

Mehefin 2018

OGL © Hawlraint y Goron ISBN digidol 978-1-78937-642-5

## Cynnwys

Cyflwyniad ........ 3
Trosolwg o'r ymatebion ........ 4
Ymatebion i'r cwestiynau ........ 5
Rhestr o'r ymatebwyr ........ 6

## Cyflwyniad

Cyn i gynllun peilot fyngherdynteithio ddod i ben ar 31 Mawrth 2017, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Seilwaith Ddatganiad Ysgrifenedig ar 21 Chwefror 2017[1] am y cynllun Tocynnau Bws Rhatach i Bobl Iau, gan sôn am ei ddyfodol ac am y dadansoddiad cychwynnol ohono.

Mae’r dadansoddiad cychwynnol hwn yn awgrymu mai ychydig iawn o bobl ifanc sy’n teithio ar y bws y tu allan i’w hardaloedd lleol. Y rheswm dros hyn, efallai, yw bod eu hysgolion, eu colegau, eu swyddi neu eu lleoedd hyfforddi, eu ffrindiau a’u gweithgareddau cymdeithasol yn ddigon agos iddynt beidio â gorfod teithio ymhellach.

Yn ei Ddatganiad Ysgrifenedig, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai’n cynnal ymgynghoriad eang â phobl ifanc, gan gynnwys ysgolion, colegau a chwmnïau bysiau, i drafod cynllun sy’n atyniadol, a fydd yn gallu eu helpu i fyw eu bywydau, i weithio ac astudio ac a fydd yn newid agweddau tuag at ddulliau o deithio.

Roedd yr ymgynghoriad hwn ar fyngherdynteithio yn gofyn barn am nifer o welliannau posib i’r cynllun cyfredol. Yn eu plith oedd y mathau o deithiau a allai fod yn gymwys am docynnau rhatach; a ddylid newid yr oed sy’n gymwys am ddisgownt a maint y disgownt, ffyrdd eraill o gyfrannu at ei gost, gan gynnwys cyfraniad penodol am bob siwrnai neu gerdyn i deithio am ddim am fis/blwyddyn. I osgoi unrhyw gyhuddiad o ddylanwadu ar atebion yr ymatebwyr, ni chafodd datganiadau am gyllid dangosol eu cynnwys yn y papur.

Er cydnabod gwerth tocynnau bws rhatach i bawb a restrwyd, rhaid nodi, oherwydd setliadau ariannu heriol gan Lywodraeth y DU, y bydd Llywodraeth Cymru’n debygol o wynebu penderfyniadau anodd ynghylch pa opsiwn y gall ei fforddio wrth barhau i gynnig tocynnau bws rhatach i bobl iau Cymru.

Yn ogystal â’r broses arferol o gylchredeg gwybodaeth, cafodd manylion yr ymgynghoriad hefyd eu hanfon at y swyddogion hynny yn Llywodraeth Cymru a oedd yn ymdrin â’r meysydd hynny’n ymwneud â chynyddu’r disgownt – er enghraifft, i wirfoddolwyr a phrentisiaid. .

Gofynnwyd i weinyddwr fyngherdynteithio a sefydlwyd gan PTI (Traveline) Cymru, dynnu sylw ei gysylltiadau at yr ymgynghoriad, a nododd ei fod wedi anfon y wybodaeth at dros 3,000 o bobl drwy ddulliau amrywiol - y cyfryngau cymdeithasol (hysbysebion testun Google AdWords a Facebook), baner ar wefan fyngherdynteithio a dolen i’r ymgynghoriad, gwybodaeth am yr ymgynghoriad mewn negeseuon e-bost at gyrff perthnasol, drwy banel cwsmeriaid Traveline Cymru ac erthygl ar wefan Traveline Cymru. Yn ogystal, sefydlwyd pum grŵp ffocws ar gyfer pobl ifanc ar hyd a lled Cymru.

[1] https://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2017/youthbustravel/?lang=cy

## Trosolwg o’r ymatebion

Cafwyd ymatebion i’r ymgynghoriad, a oedd ar agor rhwng 10 Hydref 2017 a 4 Ionawr 2018, drwy’r e-bost ac ar bapur. Aeth rhai ati i ateb pob cwestiwn: er bod rhai’n dibynnu ar roi ateb cadarnhaol neu negyddol i’r cwestiwn blaenorol ac mae un ymateb yn rhoi sgôr % ei grŵp am bob cwestiwn ac elfen.

Daeth 116 o ymatebion i law gan sefydliadau ac unigolion. Daeth dau ymateb i law ar ôl y dyddiad cau, ond cawsant eu hystyried er hynny. Os oedd ymateb gan sefydliad, fel coleg er enghraifft, yn cynnwys nifer o bleidleisiau am bob cwestiwn, cofnodwyd pob pleidlais ar wahân yn y dadansoddiad, felly mae’r cyfanswm yn fwy na nifer yr ymatebion a ddaeth i law.

Dyma restr o’r ymatebwyr yn y dadansoddiad:

| | | |
|---|---|---|
| Awdurdod addysg lleol (ysgolion/colegau) | 53 | 27.32% |
| Unigolyn | 46 | 23.71% |
| Llywodraeth leol | 33 | 17.01% |
| Grŵp defnyddwyr trafnidiaeth gyhoeddus | 23 | 11.86% |
| Grŵp cymunedol | 15 | 7.73% |
| Gweithredwr bysiau | 7 | 3.61% |
| Undeb llafur | 6 | 3.09% |
| Y trydydd sector | 5 | 2.58% |
| Y diwydiant trafnidiaeth | 3 | 1.55% |
| Grŵp cynghori | 1 | 0.52% |
| Comisiynydd/Ombwdsmon | 1 | 0.52% |
| Y sector iechyd | 1 | 0.52% |
| Grŵp anabledd | 0 | 0% |
| Y gwasanaethau brys | 0 | 0% |
| Y cyfryngau | 0 | 0% |
| Arall (nodwch) | 0 | 0% |

Nododd ymatebwyr unigol eu bod hefyd yn perthyn i’r grwpiau oedran a ganlyn a dim ond dau nododd eu bod yn ystyried eu bod yn anabl.

| O dan 16 | 16-18 | 19-22 | 23-24 | 25-59 | 60 + | Ni nodwyd oedran |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2 | 18 | 6 | 1 | 8 | 7 | 4 |
| 4.35% | 39.13% | 13.04% | 2.17% | 17.39% | 15.22% | 8.70% |

Yr ymatebion:

- Roedd cytundeb cryf bod tocynnau bws rhatach yn dylanwadu ar y modd y mae pobl ifanc yn dewis teithio.
- Roedd dau o bob tri o'r ymatebwyr yn teimlo bod angen newid yr ystod oed presennol, sef 16-18.
- Roedd 28% o'r ymatebwyr am godi'r oed i 21 ac roedd 26% am ei godi i 25.
- Roedd 52% o'r farn nad oedd y gostyngiad presennol yn ddigon i annog pobl ifanc i deithio ar y bws. Byddai'n well gan yr ymatebwyr hyn weld gostyngiad o 50%.
- Roedd 70% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig i ofyn i bobl ifanc dalu cyfraniad penodol am bob siwrnai yn lle rhoi gostyngiad o draean iddynt ac roedd 40% ohonynt yn cytuno y byddai cyfraniad o £1 yn addas.
- Roedd 32% yn cytuno y dylid codi £10 am docyn mis i'w ddefnyddio ar bob siwrnai.
- Roedd 31% yn cytuno y dylid codi £50 am docyn blwyddyn i'w ddefnyddio ar bob siwrnai.
- Roedd 84% yn teimlo y byddai gormod o oedi pe bai'r gostyngiad yn gymwys i rai mathau o siwrneiau'n unig.
- Pe bai'r gostyngiad yn gymwys i rai mathau o siwrneiau'n unig, dylid cynnwys siwrneiau at ddibenion addysg (32%), gwaith (17%) ac iechyd (6%).
- Roedd 76% o ymatebwyr o blaid cynnwys pobl ifanc a oedd yn cael y Lwfans Cynhaliaeth Addysg yn y cynllun.
- Roedd cefnogaeth gref iawn o blaid cynnwys pobl mewn addysg yn y cynllun, p'un a oeddent yn dilyn cyrsiau amser llawn (91%) neu ran amser (82%).
- Roedd cefnogaeth gref iawn o blaid cynnwys pobl a oedd yn dilyn rhaglenni prentisiaeth cydnabyddedig (85%) ac o blaid cynnwys prentisiaid o bob oed (37%).
- Roedd cefnogaeth gref iawn o blaid cynnwys gofalwyr cofrestredig (78%) ac o blaid cynnwys gofalwyr o bob oed (42%).
- Roedd cefnogaeth gref o blaid cynnwys pobl a oedd yn gwneud gwaith gwirfoddol (63%) ac o blaid cynnwys gwirfoddolwyr o bob oed (30%).
- Roedd cefnogaeth gref o blaid cynnwys pobl a oedd â Cherdyn Teithio'r Ganolfan Byd Gwaith (63%).

## Y camau nesaf

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi manylion yr ymatebion a ddaeth i law i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ddyfodol ei chynllun tocynnau bws rhatach i bobl iau.

Nid oes deddfwriaeth sy'n caniatáu i Lywodraeth Cymru fynnu bod gweithredwyr bysiau yn cynnig disgownt i bobl ifanc 16-18 oed nad ydyn nhw mewn addysg amser llawn.

Mae gweithredwyr bysiau sy'n cynnig disgownt i bobl iau sydd â'r pas fyngherdynteithio wedi ei gwneud yn glir eu bod yn disgwyl i Lywodraeth Cymru eu digolledu'n llwyr am wneud. O ganlyniad, bydd angen cael cytundeb gweithredwyr bysiau i delerau'r fynghynllunteithio newydd a gyflwynir yn 2018-19.

Er cydnabod gwerth tocynnau bws rhatach i bawb a restrwyd, rhaid nodi, oherwydd setliadau ariannu heriol, y bydd Llywodraeth Cymru'n debygol o wynebu penderfyniadau anodd ynghylch pa opsiwn y gall ei fforddio wrth barhau i gynnig tocynnau bws rhatach i bobl iau Cymru.

Bydd gofyn i'r gyllideb dalu hefyd am gost gweinyddu'r cynllun, sef cyfrifoldeb fyngherdynteithio ar hyn o bryd, cost ei farchnata a'i hyrwyddo, a chost cynhyrchu a chyhoeddi pasys. Llywodraeth Cymru fydd yn ysgwyddo'r costau hyn.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth wedi dweud ei fod yn gobeithio codi oed y cynllun i 21 yn 2018. Fel rhan o hyn, bydd swyddogion Llywodraeth Cymru'n trafod ei benderfyniad a'i oblygiadau â chynrychiolwyr y diwydiant bysus, awdurdodau lleol a Bus Users Cymru i ddod i gonsensws ynghylch cynnwys y cynllun newydd. Tan hynny, bydd y cynllun tocynnau bws rhatach i bobl iau 16-18 oed yn para'n ddigyfnewid.

## Rhestr o'r ymatebwyr

| **Categori** | **Enw** |
|---|---|
| Grŵp cynghori | Skillnet Limited |
| Gweithredwr Bysiau | Cardiff Bus |
| Gweithredwr Bysiau | CPT |
| Gweithredwr Bysiau | First Cymru Buses Ltd |
| Gweithredwr Bysiau | Newport Bus |
| Gweithredwr Bysiau | Phil Anslow Ltd |
| Gweithredwr Bysiau | South Wales Transport (Neath) Ltd |
| Gweithredwr Bysiau | Stagecoach De Cymru |
| Comisiynydd / Ombwdsmon | Comisiynydd Plant Cymru |
| Grŵp Cymunedol | Fforwm Ieuenctid Sir y Fflint |
| Grŵp Cymunedol | Cynulliad Ieuenctid Sir Benfro |
| Grŵp Cymunedol | Travelling Ahead |
| Grŵp Cymunedol | Fforwm Ieuenctid y Fro |
| Sector iechyd | GIG Cymru |
| Unigolyn | Unigolyn @ 46 |
| Awdurdod addysg lleol / coleg | Ysgol Gyfun y Coed Duon – Blwyddyn 11 |
| Awdurdod addysg lleol / coleg | Fforwm Ieuenctid Caerffili – Grŵp y Cabinet |
| Awdurdod addysg lleol / coleg | Fforwm Ieuenctid Caerffili – Grŵp 1 a 2 |
| Awdurdod addysg lleol / coleg | Grŵp 1 a 2 Ysgol Ferched Lewis |
| Awdurdod addysg lleol / coleg | Cynulliad Myfyrwyr Ysgol Uwchradd y Drenewydd |
| Awdurdod addysg lleol / coleg | Coleg Cambria |
| Awdurdod addysg lleol / coleg | Dosbarth TG Coleg Ystrad Mynach |
| Llywodraeth Leol | Cyngor Tref Bae Colwyn |
| Llywodraeth Leol | Cyngor Caerdydd |
| Llywodraeth Leol | Dinas a Sir Abertawe |
| Llywodraeth Leol | Consortiwm trafnidiaeth ranbarthol Canolbarth Cymru |
| Llywodraeth Leol | Mike Rose |
| Llywodraeth Leol | Cyngor Sir Casnewydd |
| Llywodraeth Leol | Cynghorau Gogledd Cymru @ 6 |
| Llywodraeth Leol | Cyngor Sir Penfro |

| **Categori** | **Enw** |
|---|---|
| Llywodraeth Leol | Cyngor Powys |
| Llywodraeth Leol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a’r Tîm Cymorth Gofalwyr Ifanc |
| Llywodraeth Leol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Gofal Cymdeithasol a Thai |
| Llywodraeth Leol | CLILC |
| Llywodraeth Leol | Senedd Ieuenctid Wrecsam |
| Llywodraeth Leol - Lloegr | Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer |
| Grŵp defnyddwyr trafnidiaeth gyhoeddus | Ni ddatgelwyd enwau pum ohonynt |
| Grŵp defnyddwyr trafnidiaeth gyhoeddus | Bus Users Cymru |
| Grŵp defnyddwyr trafnidiaeth gyhoeddus | Coleg y Cymoedd |
| Grŵp defnyddwyr trafnidiaeth gyhoeddus | Fforwm Trafnidiaeth Gogledd Sir Benfro |
| Grŵp defnyddwyr trafnidiaeth gyhoeddus | Fforwm Ieuenctid Powys |
| Grŵp defnyddwyr trafnidiaeth gyhoeddus | Transport focus |
| Grŵp defnyddwyr trafnidiaeth gyhoeddus | *Cymdeithas Defnyddwyr Rheilffordd* Wrecsam-Bidston |
| Y trydydd sector | Barnardo's Cymru |
| Y trydydd sector | Brake, yr elusen diogelwch ar y ffordd |
| Y trydydd sector | CTA UK |
| Y trydydd sector | GISDA |
| Y trydydd sector | Abertawe Dinas Noddfa |
| Undebau llafur | Undeb Addysg Genedlaethol Cymru |
| Undebau llafur | Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru |
| Undebau llafur | UCAC – Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru |
| Undebau llafur | UNSAIN Cymru: Aelodau Ifanc Cymru |
| Y diwydiant trafnidiaeth | Association of Local Bus Company Managers |
| Y diwydiant trafnidiaeth | PTI Cymru (Traveline Cymru) |
| Y diwydiant trafnidiaeth | Ymgynghorydd Logisteg Trafnidiaeth Gyhoeddus |